**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Alyson Thomas
Prif Weithredwr Llais

19 Mai 2023

Annwyl Alyson,

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhannu'r newyddion diweddaraf â chi am gynnydd y **Cod Ymarfer drafft ar Fynediad i Safleoedd ac Ymgysylltu ag Unigolion** (“y Cod”) ac, fel rhan o'n camau nesaf, i gychwyn ymgynghori'n ffurfiol â Llais ar y Cod.

Fel y gwyddoch, cynhaliwyd proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ar y Cod yn ddiweddar, lle roeddem yn ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid arno. Daeth y broses ymgynghori i ben ar 06 Mawrth 2023 ac mae cydweithwyr wedi bod yn gweithio i ddiwygio'r Cod yn unol â'r ymatebion a'r argymhellion a ddaeth i law.

Hoffwn ddiolch ichi a mudiad Llais am eich ymrwymiad a'ch cyfraniad adeiladol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Cod yn un o'r elfennau pwysig yn y gwaith o weithredu bwriadau'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu, ac mae eich cyfraniad wedi bod yn werthfawr iawn o ran sicrhau bod modd i'r Cod fod yn addas i'r diben.

Mae'n bleser gennyf rannu'r Cod diwygiedig fel y gellir ymgynghori arno yn ffurfiol â Llais, fel sy'n ofynnol o dan adran 19 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020. Mae'r Cod diwygiedig ar gael mewn **Atodiad** i'r llythyr hwn.

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y Cod diwygiedig ac yn rhannu eich ymateb â ni drwy fewnflwch Corff Llais y Dinesydd erbyn **16 Mehefin 2023**. Byddai hyn wedyn yn rhoi cyfle i gydweithwyr lunio fersiwn derfynol o'r Cod a'i chyhoeddi fel y bwriadwyd, erbyn 1 Gorffennaf 2023.

Yn gywir

**Yr Athro Chris Jones**
**Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Caerdydd ▪Cardiff
CF10 3NQ